

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Thegwch (FEIA)

Fersiwn 3.6 Mai 2017

Diben yr asesiad hwn yw rhoi gwybodaeth gytbwys i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau a hyrwyddo ffyrdd gwell o weithio yn unol â chydaddoldeb (Deddf Cydraddoldeb 2010), hyrwyddo'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), datblygu cynaliadwy (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015), a'r pedair dadl ynghylch tegwch a nodwyd gan Gomisiwn Tegwch Casnewydd (Adroddiad Llawn CTC i'r Cyngor, 2013).

Cwblhawyd gan: Deborah Weston

Rôl: Rheolwr Datblygu Gwasanaethau

Pennaeth Gwasanaeth: Sarah Morgan

Dyddiad: 13/02/2018

Rwy'n cadarnhau bod y Pennaeth Gwasanaeth uchod wedi cytuno i gynnwys yr asesiad hwn

Do / Naddo

Pan fyddwch yn llenwi'r FEIA hwn, eich cyfrifoldeb chi ydyw i'w gyflwyno i impact.assessment@newport.gov.uk

1. Enw a disgrifiad o'r polisi / cynnig sy'n cael ei asesu. Amlinellwch ddiben y polisi.

Diben y cynnig hwn yw cynyddu nifer y lleoedd ysgol arbennig sydd ar gael yn Ysgol Gynradd Millbrook.

Mae'r FEIA yn cefnogi'r cais i'r Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau bennu'n derfynol cynnig ad-drefnu Ysgol Gynradd Millbrook er mwyn cynyddu ei chapasiti o 210 i 315, felly'n creu ysgol sydd â 1.5 dosbarth mynediad barhaol o fis Medi 2018 ymlaen.

Os caiff ei gymeradwyo, bydd y cynnig yn cael ei weithredu'n raddol er mwyn lleihau unrhyw effaith ar ysgolion eraill, ac i sicrhau y gellir rheoli'r cynnydd yn nifer y disgyblion yn effeithiol gan y corff llywodraethu.

2. Amlinellwch sut yr ydych wedi/sut y byddwch yn cynnwys rhanddeiliaid yr effeithir arnynt gan y polisi/cynnig

Roedd y cynnig hwn yn destun ymgynghoriad ffurfiol gydag amrywiaeth o randdeiliaid. Amlinellir ei ganlyniadau yn Adroddiad yr Ymgynghoriad sydd wedi'i gyhoeddi ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd.

Yn dilyn hynny, cyhoeddwyd cynnig statudol am gyfnod o 28 diwrnod, a chynigiodd hyn y cyfle i gyflwyno gwrthwynebiadau ffurfiol. Fodd bynnag, ni chyflwynwyd unrhyw wrthwynebiad o'r fath.

3. Pa wybodaeth/tystiolaeth sydd gennych am randdeiliaid? e.e. barn, anghenion, defnydd gwasanaeth ac ati. Nodwch yr holl wybodaeth yr ystyriwch yn berthnasol.

Cynhaliwyd y cynnig yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2013 statudol a chynnwys ymgynghoriad ag amrywiaeth o randdeiliaid. Caiff canlyniadau'r broses ymgynghori hon eu hamlinellu yn yr Adroddiad Ymgynghori sydd wedi'i baratoi a'i gyhoeddi ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd.

Cyhoeddodd y Cyngor gynnig statudol rhwng 15 Ionawr 2018 a 12 Chwefror 2018 i gynyddu capasiti Ysgol Gynradd Millbrook o 210 i 315, felly'n creu ysgol sydd â 1.5 dosbarth mynediad barhaol o fis Medi 2018 ymlaen.

Cyhoeddwyd y cynnig statudol ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd ac arddangoswyd copïau ym mhob prif fynedfa i Ysgol Gynradd Millbrook. Cafodd yr hysbysiad ei rannu hefyd â'r holl randdeiliaid fel a amlinellwyd yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion statudol, gan gynnwys disgyblion, staff a rhieni / gofalwyr Ysgol Gynradd Millbrook.

Aeth y broses hon drwy'r cyfnod hysbysiad statudol hwn heb wrthwynebiad, ac felly nawr gall yr Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau ddod i benderfyniad terfynol ar y cynnig.

4. Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg

Nodwedd a ddiogelir	Effaith:			Nodwch ragor o fanylion am yr effaith yn yr adran isod. A yw'n: 1. Hyrwyddo cyfle cyfartal 2. Hyrwyddo cydlyniant cymunedol 3. Helpu i ddileu gwahaniaethu/ aflonyddu/ erledigaeth anghyfreithiol?
	Cadarnha	Negyddol	Y naill na'r llall	
Oedran	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Bydd cynnig lleoedd ysgol gynradd ychwanegol yn cefnogi dewis rhieni a'r ddarpariaeth o ysgolion lleol i blant lleol. Ni ddylai hyn gael unrhyw effaith andwyol sylweddol ar ysgolion eraill ar draws y ddinas. Mae gwaith cynnal a chadw eisoes wedi'i wneud ar y safle i wella cyfleusterau presennol o ran ystafelloedd dosbarth heb eu defnyddio o'r blaen i sicrhau eu bod yn addas ac yn briodol i gyflwyno'r cwricwlwm cenedlaethol i bob grŵp blwyddyn. Bydd pob aelod o staff a gyflogir yn yr ysgol yn cael ei drin yn gyfartal beth bynnag fo'i statws o fewn y nodwedd hon a ddiogelir.
Anabledd	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Bydd cynnig lleoedd ysgol gynradd ychwanegol yn cefnogi dewis rhieni a'r ddarpariaeth o ysgolion lleol i blant lleol. Ni ddylai hyn gael unrhyw effaith andwyol sylweddol ar ysgolion eraill ar draws y ddinas. Mae gwaith cynnal a chadw eisoes wedi'i wneud ar y

Nodwedd a ddiogelir	Effaith:			<p>Nodwch ragor o fanylion am yr effaith yn yr adran isod. A yw'n:</p> <ol style="list-style-type: none"> Hyrwyddo cyfle cyfartal Hyrwyddo cydlyniant cymunedol Helpu i ddileu gwahaniaethu/ aflonyddu/ erledigaeth anghyfreithiol?
	Cadarnha	Negyddol	Y naill na'r llall	
				<p>safle i wella cyfleusterau presennol o ran ystafelloedd dosbarth heb eu defnyddio o'r blaen i sicrhau eu bod yn addas ac yn briodol i gyflwyno'r cwricwlwm cenedlaethol i bob grŵp blwyddyn.</p> <p>Bydd pob aelod o staff a gyflogir yn yr ysgol yn cael ei drin yn gyfartal beth bynnag fo'i statws o fewn y nodwedd hon a ddiogelir.</p>
Ailbennu rhywedd/trawsrywedol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<p>Os caiff y cynnig hwn ei gymeradwyo, yn y pen draw bydd disgyblion, rhieni / gofalwyr a staff yn gysylltiedig â'r ysgol.</p> <p>Os bydd unrhyw ddisgybl, rhiant / gofalwr neu staff yn dod o dan y nodwedd hon a ddiogelir, bydd eu hanghenion yn cael eu hystyried yn unol â'r polisiau perthnasol fel a fabwysiedir gan gorff llywodraethu'r ysgol.</p>
Priodas neu bartneriaeth sifil	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Bydd pob aelod o staff a gyflogir yn yr ysgol yn cael ei drin yn gyfartal beth bynnag fo'i statws o fewn y nodwedd hon a ddiogelir.
Beichiogrwydd neu famolaeth	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Bydd pob aelod o staff a gyflogir yn yr ysgol yn cael ei drin yn gyfartal beth bynnag fo'i statws o fewn y nodwedd hon a ddiogelir.
Hil	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<p>Bydd cynnig lleoedd ysgol gynradd ychwanegol yn cefnogi dewis rhieni a'r ddarpariaeth o ysgolion lleol i blant lleol. Ni ddylai hyn gael unrhyw effaith andwyol sylweddol ar ysgolion eraill ar draws y ddinas.</p> <p>Mae gwaith cynnal a chadw eisoes wedi'i wneud ar y safle i wella cyfleusterau presennol o ran ystafelloedd dosbarth heb eu defnyddio o'r blaen i sicrhau eu bod yn addas ac yn briodol i gyflwyno'r cwricwlwm cenedlaethol i bob grŵp blwyddyn.</p> <p>Bydd pobl disgybl sy'n mynychu'r ysgol a staff a gyflogir yn yr ysgol yn cael ei drin yn gyfartal beth bynnag fo'i statws o fewn y nodwedd hon a ddiogelir.</p>
Crefydd neu Gred neu ddiffyg cred	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Ar hyn o bryd ceir wyth ysgol gynradd ffydd yng Nghasnewydd ac mae'r meini prawf gordanysgrifio i gefnogi derbyn disgyblion i'r ysgolion hyn yn rhoi blaenoriaeth i ddisgyblion sy'n ceisio addysg ffydd.

Nodwedd a ddiogelir	Effaith:			Nodwch ragor o fanylion am yr effaith yn yr adran isod. A yw'n: 1. Hyrwyddo cyfle cyfartal 2. Hyrwyddo cydlyniant cymunedol 3. Helpu i ddileu gwahaniaethu/ aflonyddu/ erledigaeth anghyfreithiol?
	Cadarnha	Negyddol	Y naill na'r llall	
				Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r ddau gorff esgobaethol cynrychiadol wrth gynllunio lleoedd ysgol ffydd a bydd y trefniant hwn yn parhau wrth ystyried darpariaeth yn y dyfodol.
Rhyw/ Hunaniaeth Rywedd	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Bydd cynnig lleoedd ysgol gynradd ychwanegol yn cefnogi dewis rhieni a'r ddarpariaeth o ysgolion lleol i blant lleol. Ni ddylai hyn gael unrhyw effaith andwyol sylweddol ar ysgolion eraill ar draws y ddinas. Mae gwaith cynnal a chadw eisoes wedi'i wneud ar y safle i wella cyfleusterau presennol o ran ystafelloedd dosbarth heb eu defnyddio o'r blaen i sicrhau eu bod yn addas ac yn briodol i gyflwyno'r cwricwlwm cenedlaethol i bob grŵp blwyddyn. Bydd pobl rhiant / gofalwr a staff sy'n gysylltiedig â'r ysgol yn cael ei drin yn gyfartal beth bynnag fo'i statws o fewn y nodwedd hon a ddiogelir.
Cyfeiriadedd Rhywiol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Bydd pobl rhiant / gofalwr a staff sy'n gysylltiedig â'r ysgol yn cael ei drin yn gyfartal beth bynnag fo'i statws o fewn y nodwedd hon a ddiogelir.
Y Gymraeg	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Ceir tair ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yng Nghasnewydd ar hyn o bryd ac mae'r Cyngor yn gweithio i sicrhau bod y trefniadau ar gyfer cynllunio lleoedd ysgol o'r fath yn effeithiol. Mae yna ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg i'w chael yn agos iawn at Ysgol Gynradd Millbrook.

5 Sut mae eich cynnig wedi ymgorffori a blaenoriaethu'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ei lunio?

Egwyddor datblygu cynaliadwy	A yw eich cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hon? Disgrifiwch sut.
Cydbwysio anghenion tymor byr gydag anghenion hirdymor	<i>Ydy, drwy gynnig mwy o leoedd ysgol ac felly'n cynyddu darpariaeth i blant lleol fynychu ysgolion lleol</i>
Cydweithio i gyflawni amcanion	<i>Mae ymgynghoriad ffurfiol eisoes wedi'i gynnal a oedd yn cynnwys ymgysylltu wedi'i dargedu â rhanddeiliaid.</i>
Cynnwys y rhai hynny sydd â diddordeb a cheisio eu barn	<i>Mae ymgynghoriad statudol ffurfiol eisoes wedi'i gynnal a oedd yn cynnwys ymgysylltu wedi'i dargedu â rhanddeiliaid.</i>
Defnyddio adnoddau er mwyn atal problemau rhag codi neu waethygu	<i>Bydd rhagor o leoedd ysgol ar gael mewn ardal lle y mae galw, gan alluogi disgyblion i fynychu ysgol leol, felly'n cynyddu hygyrchedd a lleihau nifer y ceisiadau trafndiaeth o'r cartref i'r ysgol.</i>
Ystyried effaith ar bob nod llesiant gyda'i gilydd ac ar gyrff eraill	<i>Mae ymgynghoriad statudol ffurfiol wedi'i gynnal â rhanddeiliaid allweddol, a chaiff ei ganlyniad ei nodi yn yr adroddiad ymgynghori. Mae'r cynnig hwn yn cefnogi Nodau Llesiant "Cymru ffyniannus" a "Chymru fwy cyfartal" ac nid oes ganddo unrhyw effaith andwyol ar unrhyw Nodau Llesiant eraill. Mae'r cynnig hwn hefyd yn cefnogi Nod Llesiant Cyngor Dinas Casnewydd "I wella sgiliau, canlyniadau addysgol a chyfleoedd cyflogaeth".</i>

6 A fydd y cynnig/polisi'n cael effaith anghymesur ar ardal ddaearyddol benodol o Gasnewydd?

Bydd y newid arfaethedig yn effeithio'n bennaf ar ardal Betws y ddinas, fodd bynnag gall plant sy'n byw ym mhob rhan o'r ddinas wneud cais i gael eu derbyn i'r ysgol. Bwriad y Cyngor yw darparu ysgolion lleol i blant lleol yn ogystal â thaith addysg unigol i blant yn ystod eu hamser yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2.

7 Sut mae'r cynnig/polisi yn ymwneud â'r dadleuon ynghylch Tegwch a nodwyd gan Gomisiwn Tegwch Casnewydd?

8

Bydd darparu mwy o leoedd ysgol gynradd mewn ardal lle y mae galw uchel yn cefnogi'r Polisi Derbyn i Ysgolion lle y caiff pob ymgeisydd ei drin yn deg a chyfartal. Bydd gwell mynediad cyfartal at leoedd ysgol a llwybr dysgu di-dor i blant rhwng 3 – 11 oed.

9 Gan ystyried yr asesiad hwn yn ei gyfanrwydd, beth gellid ei wneud i liniaru unrhyw effeithiau negyddol eich polisi a chyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?

Os caiff ei gymeradwyo, bydd y cynnig yn cael ei weithredu'n raddol er mwyn lleihau unrhyw effaith ar ysgolion eraill, ac i sicrhau y gellir rheoli'r cynnydd yn nifer y disgyblion yn effeithiol gan y corff llywodraethu.

10 Monitro, gwerthuso ac adolygu

Bydd effaith y cynnig yn cael ei werthuso ar ôl ei weithredu'n llawn. Mae'r FEIA hwn wedi'i adolygu a'i ddiweddarau ar gamau drwy gydol y cynnig.

11 Cynnwys Pobl

Rhoddyd gwybod i randdeiliaid am gyhoeddiad yr hysbysiad statudol a bydd manylion y penderfyniad yn cael eu rhannu fel y bo'n briodol.

12 Crynodeb o'r Effaith (i'w gynnwys mewn unrhyw adroddiad)

Deddf Cydraddoldeb 2010 a'r Gymraeg

Bydd yr ysgol newydd arfaethedig yn gwasanaethu plant a theuluoedd sy'n byw yn ardal Betws yn bennaf, gan ddarparu mwy o leoedd ysgol a chefnogi parhad cydberthnasau cadarnhaol o fewn amgylchedd yr ysgol ac o amgylch. Bydd lleoedd yn yr ysgol yn cael eu dyrannu yn unol â'r Polisi Derbyn i Ysgolion sy'n cefnogi system deg a chytbwys ar gyfer dyrannu lleoedd ysgol.

Mae yna ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg i'w chael yn agos iawn at Ysgol Gynradd Millbrook.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

I grynhoi, mae'r cynnig hwn yn cefnogi llesiant drwy gynnig mwy o leoedd ysgol mewn ardal lle y

mae galw uchel, gan gefnogi egwyddorion dewis rhieni ac ysgolion lleol i ddisgyblion lleol. Mae'n debygol yr effeithir yn gadarnhaol ar bresenoldeb a phrydlondeb lle y gall plant fynychu ysgol leol o'u dewis. O ganlyniad, mae cyfraddau presenoldeb ysgol uchel yn ffactor arwyddocaol wrth sicrhau cyrhaeddiad ac mae hyn felly'n effeithio ar ganlyniadau addysgol ac ar gyfleoedd cyflogaeth yn y tymor hwy.